# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 6**

ACHOSION ARBENNIG

*Partneriaethau a chyrff anghorfforedig*

**82 Cofrestru partneriaethau a chyrff anghorfforedig a newidiadau mewn aelodaeth**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo dau berson neu ragor yn rhedeg busnes tirlenwi mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig.

(2) Caiff ACC gofrestru'r personau o dan eu henwau eu hunain neu o dan enw'r bartneriaeth neu'r corff.

(3) Pan fo'r personau wedi eu cofrestru o dan enw'r bartneriaeth neu'r corff a bod ei haelodaeth neu ei aelodaeth yn newid, mae'r personau sy'n aelodau ar ôl y newid yn parhau i fod yn gofrestredig o dan yr enw hwnnw os oedd o leiaf un ohonynt yn aelod cyn y newid.

(4) Mae person sy'n peidio â bod yn aelod o bartneriaeth neu gorff anghorfforedig i'w drin fel pe bai'n parhau i fod yn aelod hyd y dyddiad y rhoddir hysbysiad am y newid mewn aelodaeth i ACC o dan adran 36.

(5) Mae is-adran (4) yn gymwys at ddibenion unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth, ond mae'n ddarostyngedig i adran 36(3) o Ddeddf Partneriaeth 1890 (p. 39) (rhwymedigaeth ystad yn sgil marwolaeth neu fethdaliad).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 82. (See end of Document for details)*

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 82 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 82 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(w)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 82.